**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**Rhagfyr 2il 2024**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Gareth M Jones a Gwynfor Owen

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Rhian Medi (Swyddog Cydymffurfiaeth Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 4: Cais Trwydded Eiddo City Sports and Cocktail Bar', 20/21 Canolfan Menai, Bangor**

- Chris O'Neal — Yr ymgeisydd
- Gilly Haradence — Cynrychiolydd yr Ymgeisydd
- Ffion Muscroft — Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd
- Ian Roberts — Heddlu Gogledd Cymru
- Elizabeth Williams — Heddlu Gogledd Cymru
- Cyng Nigel Pickavance — Aelod Lleol
- Cyng Dylan Fernley — Aelod Lleol
- Awen Gwyn — Preswylydd Lleol

**Ymddiheuriadau**

Dim i'w nodi

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** | Rhagfyr 2il 2024 |

**PWNC**

Cais amrywio trwydded eiddo City Sports and Cocktail Bar', 20/21 Canolfan Menai, Bangor

**PENDERFYNIAD: Caniatáu y cais fel cafodd ei gyflwyno, yn ddarostyngedig ar gynnwys yr amodau sŵn a gyflwynwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.**

- **Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15munud na'r lefel LZeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:2014**
- **Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1 bydd perchennog yr eiddo yn gwneud y canlynol:**
  **a) Gwneud unrhyw waith ynysu / arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio ac amod sŵn**
- **Unwaith bydd lefel ar ddyfais reoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
- **Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth yn allanol**
- **Rhaid cau'r ardal eistedd allanol ar ol 21:00**
- **Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, heblaw am fynediad i mewn ac allan o'r eiddo.**
- **Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 09:00 . Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead**

**Amodau ychwanegol i gynnwys**

- **Cynnwys y mesurau ychwanegol a gyflwynwyd yn rhan M o'r cais, fel amodau i'r drwydded.**
- **Stopio gwerthu alcohol ar y penwythnosau am 03:30 a chau am 04:00**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

O blaid: 3
Yn erbyn: 0
Atal: 0

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.